# Cynnwys


Cynnwys
Rhaglen 2
Eitem 4 - Cofnodion y cyfarfod diwethaf 8
Eitem 5 - Gwynedd Amdani! 12
Eitem 5 - Atodiad A 13
Eitem 5 - Atodiad B 14
Eitem 5 - Atodiad C 27
Eitem 6(A) - Arolwg Staff 2013 29
Eitem 6(B) - Absenoldebau Salwch 2012-13 31
Eitem 6(C) - Ymddeoliadau 36
Eitem 7 - Adroddiad Craffu Blynyddol 2012-13 37
Eitem 7 - Atodiad 38
Eitem 8 - Blaen Raglen Waith y Pwyllgor 2013-14 45

**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL

# CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**10.00AM, DYDD IAU, 14 TACHWEDD, 2013**
**10.00AM, THURSDAY, 14 NOVEMBER, 2013**

Lleoliad / Location

***SIAMBR HYWEL DDA,**
**SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON**

*Nodwch y lleoliad ogydd / *Please note venue

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**Eirian Roberts**

**(01286) 679018**

**maireirianroberts@gwynedd.gov.uk**

*(DOSBARTHWYD / DISTRIBUTED 6/11/13)*

# PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL
# CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE

## AELODAETH/MEMBERSHIP (18)

### Plaid Cymru (9)
Y Cynghorwyr / Councillors

| | |
|---|---|
| Elwyn Edwards | Dafydd Meurig |
| Aled Evans | Michael Sol Owen |
| Selwyn Griffiths | Mair Rowlands |
| Charles Wyn Jones | Gareth Thomas |
| Dyfrig Jones | |

### Annibynnol / Independent (4)
Y Cynghorwyr / Councillors

| | |
|---|---|
| Lesley Day | Eryl Jones-Williams |
| Trevor Edwards | Eirwyn Williams |

### Llais Gwynedd (3)
Y Cynghorwyr / Councillors

| | |
|---|---|
| Gweno Glyn | Jason Humphreys |
| Simon Glyn | |

### Llafur / Labour (1)
Y Cynghorydd / Councillor
Gwynfor Edwards

### Rhyddfrydwyr Democrataidd / Liberal Democrats (1)
Y Cynghorydd / Councillor
June Marshall

### Aelodau Ex-officio / Ex-officio Members
Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor / Chairman and Vice-Chairman of the Council

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 5 Medi, 2013 fel rhai cywir (copi ynghlwm).

*Noder – amcan yn unig yw'r amseroedd a nodir isod*

**5. GWYNEDD AMDANI!**
**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd John Wynn Jones**

Ystyried adroddiad y Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu (copi ynghlwm).

*10.10am – 10.40am*

**6. GWEITHLU'R CYNGOR**
**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Peredur Jenkins**

(A) Arolwg Ymgysylltu Staff 2013

Ystyried adroddiad y Rheolwr Adnoddau Dynol a Datblygu'r Gyfundrefn ar ganlyniadau'r arolwg staff diweddar (copi ynghlwm).

(B) Rheoli Salwch

Ystyried adroddiad yr Uwch Reolwr Adnoddau Dynol i'r Panel Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol ar Absenoldebau Salwch 2012-13 (copi ynghlwm).

(C) Swyddogion yn Ymddeol a Dychwelyd

(gwybodaeth ynghlwm).

*10.40am – 11.40am*

**7. ADRODDIAD CRAFFU BLYNYDDOL 2012-13**

Ystyried adroddiad y Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu (copi ynghlwm).

*11.40am – 12.10pm*

**8. BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR 2013 - 2014**

Cyflwyno'r fersiwn ddiweddaraf o'r rhaglen waith (copi ynghlwm).

*12.10pm – 12.20pm*

# PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL, 05.09.13

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Simon Glyn (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Dyfrig Jones (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:-** Trevor Edwards, Aled Evans, Selwyn Griffiths, Jason Humphreys, Eryl Jones-Williams, June Marshall, Gareth Thomas ac Eirwyn Williams.

**Swyddogion yn bresennol:** Geraint George (Pennaeth Strategol a Gwella), Gareth James (Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 3 isod:-**

Y Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet Gofal Cwsmer);
Gwenan Parry (Pennaeth Gofal Cwsmer).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 4 isod:-**

Y Cynghorydd Peredur Jenkins (Aelod Cabinet Adnoddau);
Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Lesley Day, Elwyn Edwards, Gweno Glyn, Charles W.Jones, Dafydd Meurig, Michael Sol Owen a Mair Rowlands.

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 23 Mai, 2013 fel rhai cywir.

**3. STRATEGAETH YMGYSYLLTU**
**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Ioan Thomas**

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Gofal Cwsmer yn manylu ar drefniadau'r Cyngor ar gyfer gwella ymgysylltu. 'Roedd yr adroddiad wedi'i strwythuro ar sail cyfres o faterion y gofynnwyd i'r Aelod Cabinet eu cyfarch ac amgaewyd copi o'r Strategaeth Ymgysylltu Drafft fel ag y saif ar hyn o bryd.

Gosododd yr Aelod Cabinet y cyd-destun ac yna rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth ddilynol, codwyd y prif faterion a ganlyn:-

- Nododd aelod y bu'n rhaid iddi hi â'i chyd-aelod ar Ward Menai, Bangor ganslo cyfarfod cyhoeddus a drefnwyd yn yr ardal yn ddiweddar i drafod strategaethau a pholisïau'r Cyngor oherwydd bod y Pennaeth Rheoleiddio wedi penderfynu peidio

rhyddhau ei swyddogion i fynd yno. O'r wybodaeth gyflwynwyd, 'roedd hyn yn ymddangos yn groes i ysbryd y Strategaeth a gofynnwyd i'r aelod basio'r manylion llawn ymlaen i'r Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu fel y gall yntau eu cyflwyno'n ffurfiol i'r Aelod Cabinet Gofal Cwsmer ar ran y pwyllgor hwn.

- Nodwyd nad oedd swyddogion yn edrych ar Galendr y Cyngor cyn penderfynu ar ddyddiadau cyfarfodydd gydag aelodau, a chyfeiriwyd at gyfarfod oedd yn gwrthdaro â'r Cyngor llawn ar 19 Medi fel enghraifft o'r broblem hon.
- Gan gyfeirio at y mesurau y bwriedir eu defnyddio i fesur llwyddiant, nodwyd bod yr ail bwynt bwled, sef '*faint o drigolion Gwynedd sy'n cytuno ei fod yn bosibl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol'* yn gosod her amhosib' i'w chyflawni oherwydd ei bod yn anodd iawn i aelodau etholedig, heb sôn am eu hetholwyr, ddylanwadu ar benderfyniadau oherwydd y cyfyngiadau ariannol, statudol, ayb, a osodir ar lywodraeth leol gan y llywodraeth yn ganolog. Nodwyd hefyd ei bod yn bwysig bod pob awdurdod lleol yn cytuno ar fesuryddion er mwyn gallu cymharu un cyngor gyda'r llall.
- Gan gyfeirio at yr un pwynt bwled, awgrymwyd bod y geiriad *'dylanwadu ar benderfyniadau'* yn awgrymu bod y penderfyniad wedi'i wneud ac y byddai geiriad megis *'datrys problemau'* yn fwy addas. Atebodd y Pennaeth Gofal Cwsmer fod y geiriad wedi dod o'r arolwg MORI sy'n cael ei wneud drwy wledydd Prydain er mwyn gallu gwneud rhyw fath o gymhariaeth, ond cytunodd i edrych ar hyn yng nghyswllt yr hyn sy'n cael ei wneud yn genedlaethol hefyd.
- Awgrymwyd bod yna ffyrdd o wneud i aelodau deimlo eu bod yn fwy cynhwysol yn nhrefn benderfyniadau'r Cyngor a bod modd edrych hefyd ar sut y gellid gwneud i'r trethdalwyr deimlo'n fwy cynhwysol a chael mwy o berchnogaeth.
- Pwysleisiwyd bod angen gwell ymgysylltu gyda'r aelodau a nodwyd na ellid disgwyl i ymgysylltu gyda'r cyhoedd fod yn effeithiol os yw'r ymgysylltu gyda'r aelodau yn aneffeithiol. Nodwyd bod Rhaeadr wedi bod yn gam i'r cyfeiriad iawn, ond 'roedd angen i fwy o'r adrannau wneud defnydd ohono fel cyfrwng i ymgysylltu â'r aelodau.
- Mynegwyd pryder nad yw'r Fforymau Ardal, ac eithrio Dwyfor, yn agored i'r cyhoedd.
- O safbwynt sicrhau'r gwerth gorau o ymgynghoriadau statudol, nodwyd bod y Cyngor yn gwneud y gwaith o drosglwyddo negeseuon i'r cyhoedd, ond cwestiynwyd a oedd y negeseuon hynny'n cael eu clywed. Fel enghraifft o hyn, cyfeiriwyd at yr arfer o gyflwyno manylion cais cynllunio lleol ar bolyn lamp ac awgrymwyd, yn hytrach na chynnwys toreth o wybodaeth mewn print mân, y byddai'n fwy ystyrlon darparu crynodeb byr o'r cais mewn print bras gyda chyfeiriad at lle i gael rhagor o wybodaeth.
- Cyfeiriwyd at enghreifftiau o swyddogion yn ymgysylltu gyda grwpiau penodol o fewn ardal, ond ddim yn cysylltu â'r aelod lleol dros yr ardal honno.
- Cyfeiriwyd hefyd at sawl enghraifft o ddiffyg ymgynghori gydag aelodau a'r cyhoedd. Nodwyd bod hyn yn fwy o broblem mewn rhai adrannau na'i gilydd a phwysleisiwyd bod rhaid i'r diwylliant newid fel mater o flaenoriaeth. Mater o gwrteisi oedd hyn ac nid oedd yn costio dim nac yn ychwanegu at lwyth gwaith swyddog.
- Nodwyd ei bod yn bwysig i rai o'r aelodau rheng flaen ddod ynghyd i drafod anghenion aelodau yn y broses ymgysylltu gyda'r Aelod Cabinet neu'r Bwrdd Prosiect Ymgysylltu / Bwrdd Rheoli Ymgysylltu.
- Nodwyd bod gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd rôl yn y broses hon. Awgrymwyd bod rhannau 5 a 6 o'r adroddiad, sef beth sy'n cael ei weld fel rôl aelodau rheng flaen yn y trefniadau ymgysylltu newydd a pha fath o gymorth ac arweiniad fydd ar gael i gynghorwyr, rheolwyr a staff y Cyngor, yn friff i Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd weithio arno a chytunodd yr Aelod Cabinet i gysylltu â hi.

- Pwysleisiwyd pwysigrwydd cyfleu gwybodaeth gywir i'r aelodau a nodwyd bod camgymeriadau mewn adroddiadau i'r Cyngor, ayb, yn annerbyniol.
- Nodwyd bod aelodau a swyddogion wedi pellhau oddi wrth ei gilydd a bod angen rhoi cyfle i'r ddwy ochr ddod ynghyd i ail-gyflwyno eu hunain i'r naill a'r llall o safbwynt y gwaith o ddydd i ddydd.
- Holwyd a oedd modd ymestyn aelodaeth y Bwrdd Prosiect Ymgysylltu / Bwrdd Rheoli Ymgysylltu i gynnwys aelodau rheng flaen, megis pencampwyr, cynrychiolydd o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Nodwyd y sylw gan yr Aelod Cabinet.
- Mynegwyd cefnogaeth gyffredinol i gyfeiriad y strategaeth, ond pwysleisiwyd pwysigrwydd sicrhau bod yr amserlen mor realistig â phosibl.
- Awgrymwyd ymweld â'r pwnc yma eto yn ystod oes y pwyllgor er mwyn gweld pa gynnydd sydd wedi digwydd.

Gofynnwyd i'r aelodau gysylltu â'r Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu pe dymunent gael copi o'r Llawlyfr Ymgysylltu.

**4. STRATEGAETH ARBEDION**
**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Peredur Jenkins**

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Adnoddau yn manylu ar yr hyn sy'n digwydd yn y maes ariannol ac yn benodol, effaith yr arbedion hyn ar bobl Gwynedd. 'Roedd yr adroddiad wedi'i strwythuro ar sail cyfres o faterion y gofynnwyd i'r Aelod Cabinet eu cyfarch.

Gosododd yr Aelod Cabinet y cyd-destun ac yna rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth ddilynol, codwyd y prif faterion a ganlyn:-

- Nodwyd y penderfynwyd yn y Cyfarfod Paratoi y dylai'r cyfarfod hwn edrych hefyd ar y rhaglen gyfalaf a refeniw, y Cynllun Asedau ac effaith colli arian y Cynllun Datblygu Gwledig, ond gan nad oedd hyn wedi'i gyfleu i'r Aelod Cabinet, o bosib' y byddai'r pwyllgor hwn yn dymuno edrych ar yr elfennau hynny eto.
- Nodwyd na ellid derbyn sylw'r Aelod Cabinet nad yw'r toriadau wedi effeithio ar y cyhoedd a chyfeiriwyd at enghreifftiau, megis y toriadau yn y gwasanaeth bysiau ym Meirionnydd, i atgyfnerthu'r pwynt yma. Cyfeiriwyd hefyd at yr arfer o lenwi tyllau yn y ffyrdd yn hytrach na'u hail-wynebu, ond cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid na fu unrhyw gwtogiad i'r gyllideb cynnal ffyrdd fel rhan o'r rhaglen arbedion corfforaethol.
- Eto, gan gyfeirio at y gwasanaeth cludiant ym Meirionnydd, nodwyd na fu yna ymgysylltu â'r aelodau, a phwysleisiwyd yr angen i'r aelodau fod yn rhan annatod o'r holl drefn arbedion o'r cychwyn.
- Nodwyd bod cyfrifoldeb ar bawb i sicrhau bod y broses o weithredu arbedion a thorri gwasanaethau, pan mae hynny'n gorfod digwydd, yn cael ei weithredu yn y ffordd lleiaf poenus.
- Mynegwyd pryder y bydd yr argyfwng ariannol yn y maes iechyd yn arwain at drosglwyddo cyfrifoldebau ychwanegol a chostau perthnasol i'r cynghorau sir.
- Pwysleisiwyd yr angen i'r adrannau drafod arbedion effeithlonrwydd gyda'r staff yn is i lawr a dylid gofyn i staff beidio disgyn yn ôl ar ateb hawdd fel "arbedion corfforaethol" pryd mae methiant i wario oherwydd blaenoriaethu adrannol.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd buddsoddi i arbed a gofynnwyd i'r aelodau gyfeirio unrhyw syniadau am arbedion i'r Aelod Cabinet Adnoddau, neu'r Pennaeth Strategol a Gwella neu'r Pennaeth Cyllid.

- Nodwyd y dylid penderfynu sut i ddilyn y drafodaeth hon i fyny yn y Cyfarfod Paratoi nesaf.

**5. BLAEN RAGLEN WAITH CRAFFU 2013-2014**

Cyflwynwyd – y fersiwn ddiweddaraf o'r rhaglen waith.

**PENDERFYNWYD derbyn y rhaglen waith.**

**6. YMCHWILIAD CRAFFU CAFFAEL CYNALIADWY**

Cyflwynwyd – cais i ymestyn cyfnod yr ymchwiliad i fis Rhagfyr 2013 ac i gyflwyno'r adroddiad i sylw'r pwyllgor hwn ym mis Ionawr 2014.

**PENDERFYNWYD**
**(a) Caniatáu'r cais er mwyn sicrhau digon o amser i wneud y gwaith yn drwyadl.**
**(b) Ychwanegu'r cymal '*Hyrwyddo gwasanaeth dwyieithog llawn'* at bwrpas yr ymchwiliad, yn unol â phenderfyniad blaenorol y pwyllgor hwn.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 12.40pm.

| | |
|---|---|
| Pwyllgor | Pwyllgor Craffu Corfforaethol |
| Dyddiad | 14 Tachwedd 2013 |
| Eitem | Gwynedd Amdani |
| Awdur | Gareth James, Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu |
| Prif faterion sydd angen sylw gan yr Aelodau | • Ystyried cynnwys yr Atodiadau a chwestiynu yn ôl yr angen<br>• Ystyried sut orau i annog dinasyddion Gwynedd i gofrestru ar gyfer Cynllun Cyd Cymru<br>• Ystyried cofrestru fel Partner i Cyd Cymru |

1 Cyd-destun

Nodwyd canlyniadau Arolwg gan YnNi Llŷn a gyflwynwyd i gyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol ar 13 Rhagfyr 2012, fel a ganlyn:

*Mae'r canlyniadau hyn yn creu darlun economaidd ac amgylcheddol bregus o Ben Llŷn. Ar gyfer y tri chategori (Trydan, Gwresogi a Thrafnidiaeth) yr edrychwyd arnynt, mae cost a'r defnydd o ynni yn uwch na'r cyfartalog cenedlaethol*

Bwriad yr eitem craffu yma yw ystyried sut orau i arwain neu I gefnogi trefniant i gaffael ynni yn rhatach ar gyfer trigolion y Sir drwy gynyddu grym pwrcasu.

2 Datblygiadau Diweddar

2.1 Cafodd Cynllun newydd ei lansio yng Nghymru ar 21 Hydref 2013 er mwyn annog pobl Cymru i ddod at ei gilydd i brynu er mwyn lleihau eu biliau ynni.

2.2 Enw'r cynllun yw Cyd Cymru sydd wedi cael ei greu gan Gyngor Dinas Caerdydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru ac mae'n agored i holl drigolion Cymru.

2.3 Drwy brynu ynni gyda'i gilydd, mae cynlluniau tebyg wedi arbed rhwng £60 a £250 fesul aelwyd y flwyddyn i'r rhai sy'n cymryd rhan.

3 Cynllun Cyfathrebu

Mae Braslun o Gynllun Cyfathrebu yn amgaëedig

# newidiwch i ynni rhatach...



CYD CYMRU WALES TOGETHER
ENERGY COLLECTIVE
CYDWEITHFA YNNI

## Cofrestrwch heddiw.

Gyda'n gilydd gallwn arbed mwy.


0800 093 5902
www.cydcymru-egni.com

## Rhoi pŵer i'r bobl

Efallai nad ydych wedi clywed am gydfargeinio i brynu ynni o'r blaen, ond mae'r syniad yn syml dros ben. Drwy ddod ynghyd fel un i brynu ein hynni, gallwn sicrhau bargen well gyda darparwyr ynni, a chael mwy o arbedion a gaiff eu trosglwyddo i chi!

Mae pawb yn gwybod y gall newid cyflenwyr ynni arbed arian i ni. Fodd bynnag mae pobl ym mhob rhan o Brydain yn sicrhau mwy o fanteision drwy newid a phrynu eu hynni gyda'i gilydd, gan arbed rhwng £60 a £250 ar filiau ynni eu cartref bob blwyddyn!

Ar adeg pan fo costau ynni yn cynyddu, mae sicrhau ffyrdd o arbed arian yn bwysicach nag erioed.




## Cyd Cymru – Wales Together

Mae Cyd Cymru yn gynllun cydfargeinio ynni sydd ar waith ledled Cymru. Pa le bynnag rydych yn byw yng Nghymru, drwy gofrestru â'r cynllun a newid eich cyflenwr ynni, gallech fod yn gweld y manteision. Po fwyaf o bobl sy'n ymuno â ni, y mwyaf y disgownt y gallwn gydfargeinio amdano.

Mae Cyd Cymru yn broject a ariennir gan Lywodraeth Cymru, ac mae wedi'i ddatblygu gyda phartneriaid ledled Cymru i'ch helpu chi i gael bargen well ar gostau eich ynni.

## Sut mae'r broses yn gweithio?

Does dim rhaid i chi newid cyflenwr/cyflenwyr ynni a chi fydd â'r gair olaf ar ba un a ydych am newid ai peidio.

1. Cofrestru: Y cam cyntaf yw cofrestru diddordeb, gan roi cymaint o fanylion â phosibl am faint o ynni a ddefnyddir yn eich cartref. Mae modd gwneud hyn ar-lein neu dros y ffôn.

2. Arwerthiant Ynni: Yna cynhelir ocsiwn ynni lle dylai cwmnïau ynni roi eu pris gorau i'r bobl sydd wedi cofrestru â'r cynllun.

3. Cynnig cyfradd newydd: Bydd rhywun yn cysylltu â chi i gynnig pris arbennig i chi yn seiliedig ar y wybodaeth rydych chi wedi ei rhoi.

4. Rydych yn dewis newid. Os byddwch yn derbyn y cynnig, cewch gymorth i newid i'r tariff newydd rhatach.

5. **Bydd ein partner, energyhelpline, yn eich helpu i newid cyflenwr.**

## Sut ydw i'n cofrestru?

Bydd o leiaf ddwy broses gydfargeinio rhwng nawr a mis Mawrth 2014. Dechreuodd y gyntaf ar 21 Hydref a bydd ar agor tan 1 Rhagfyr 2013.

Gallwch gofrestru eich manylion gyda ni drwy:

1. lenwi'r ffurflen ar-lein ar ein gwefan **www.cydcymru-egni.com**
2. ffonio ein canolfan gyswllt ar 0800 093 5902

# Cyd Cymru / Wales Together

*Trosolwg o'r Cynllun Prynu Ynni ar y Cyd i Gymru*

Hydref 2013

## Diben

Diben y ddogfen yw rhoi diweddariad i randdeiliaid ledled Cymru ar Gynllun Prynu Ynni ar y Cyd Cyd Cymru, amlinellu rhai o'r dyddiadau allweddol sydd ar y gorwel a rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed hyd yma.

Gobeithio y bydd yn annog partneriaid ledled Cymru i roi eu cefnogaeth yn ffurfiol i'r cynllun a gwneud prynu ynni ar y cyd yn gyfle y gall pawb fanteisio arno.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Diben | T3 |
| | |
| Cyflwyniad | T4 |
| Trosolwg | T5 |
| • Beth yw Prynu Ynni ar y Cyd | T6 |
| • Sut mae'n gweithio? | T6 |
| Cefndir: | T8 |
| Datblygu Cynllun Project | T8 |
| Rhesymeg dros Ddewis Asiant Cydfargeinio | T8 |
| Gwerthuso'r Asiant Cydfargeinio | T10 |
| Adnoddau Ategol | T11 |
| Cerrig Milltir Allweddol | T12 |

## Cyflwyniad

Gwyddom fod costau biliau tanwydd wedi bod yn her fawr i bobl dros y blynyddoedd diwethaf. Dyma pam ein bod wedi edrych ar y ffordd y gallwn helpu pobl i fynd i'r afael â hi. Mae Cyd Cymru yn gynllun pwysig sy'n gallu helpu pobl i arbed arian ac atal eu biliau ynni rhag cynyddu, gwresogi eu cartrefi a gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r amgylchedd. Bydd Cyngor Caerdydd a'i bartneriaid yn gweithio'n galed mewn cymunedau ledled Caerdydd a'r Fro i helpu pobl i gymryd rhan, symleiddio eu biliau a sicrhau cyfradd farchnad dda wrth wneud hynny.

Gyda chymorth Cronfa Cydweithredu Ranbarthol Llywodraeth Cymru, cafwyd cyfle i ddatblygu cynllun prynu ynni ar y cyd, y teimlwn y gall pawb yng Nghymru ei gefnogi.

**Y Cynghorydd Ashley Govier, Aelod Cabinet Cyngor Caerdydd dros yr Amgylchedd**

Bydd nifer ohonoch yn gyfarwydd â'r syniad o brynu ynni ar y cyd. Gyda chostau ynni'n cynyddu mae'n bwysig i ni wneud popeth y gallwn i gadw costau i lawr. Drwy brynu ynni ar y cyd drwy fenter Cyd Cymru, yn ogystal â'r posibilrwydd o arbed arian, gall pobl ddysgu mwy am y cyfleoedd i wneud eu cartrefi'n gynhesach ac yn fwy effeithlon o ran arian.

Bwriad y ddogfen hon yw cynnig gwybodaeth angenrheidiol fel y gall partneriaid a rhanddeiliaid ledled Cymru gymryd rhan.

**Y Cynghorydd Rob Curtis, Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd a Gwasanaethau Gweledol, Bro Morgannwg**

## Trosolwg

Gyda gaeaf ar y gorwel, dylai tlodi tanwydd fod yn bwnc llosg.

Gwyddom fod prisiau ynni wedi bod yn cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf. Yn ôl ystadegau Ofgem a'r SYG, cododd biliau ynni cymaint â 24% rhwng 2009 a 2012, tra bod incymau cartrefi ond wedi codi 2.9% dros yr un cyfnod. Gan fod hon yn duedd sy'n debygol o barhau mae'n golygu bod y bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas yn debygol o gael eu heffeithio arnynt fwyaf.

Dyma pam fod yn rhaid i bawb ohonom ystyried sut y gallwn helpu pobl â'u biliau tanwydd. Mae prynu ynni ar y cyd yn gyfle unigryw i gartrefi a busnesau wneud arbedion da ar eu biliau. Drwy brynu ynni ar y cyd, mae pobl mewn cynlluniau cydfargeinio blaenorol wedi arbed rhwng £60 a £250 y cartref y flwyddyn.

Dyma pam bod Cyd Cymru wedi'i ddatblygu. Cynllun prynu ynni ar y cyd ydyw, sydd am gynnig cyfle i bobl Cymru arbed arian drwy ddod ynghyd i brynu tanwydd gyda'i gilydd.

I ddechrau, fe'i datblygwyd gan Gyngor Caerdydd a Bro Morgannwg, gyda chymorth gan y Gronfa Cydweithredu Ranbarthol, a chaiff ei lansio yn yr hydref a gall pawb yng Nghymru benbaladr fanteisio arno.

Po fwyaf o bobl a fydd yn cymryd rhan, y mwyaf yw'r cyfle o sicrhau bargen dda. Rydyn ni'n awyddus i sicrhau bod pawb yng Nghymru yn gallu ymuno â ni. Mae bwrdd project Cyd Cymru wedi cael budd o fewnbwn Grŵp Rhanddeiliaid Cymru Gyfan. Fodd bynnag, i sicrhau bod pawb yn gwybod am y gwaith rydym wedi'i wneud hyd yma, a beth yw'r camau nesaf, rydym yn dosbarthu'r prosbectws Cyd Cymru hwn i helpu i ateb llawer o'r cwestiynau a godwyd gyda ni.

Os ydych am gymryd rhan, caiff deunydd cyfathrebu a hyrwyddo Cyd Cymru eu rhannu â chi. Gallwch ei addasu i'ch anghenion lleol chi. Gobeithio y bydd y ddogfen hon yn ateb rhai o'ch cwestiynau allweddol ac yn eich galluogi i'w gefnogi'n ffurfiol. Po fwyaf o bobl

fydd yn cefnogi'r cynllun, y mwyaf fydd y manteision, a bydd hyd yn oed mwy o bobl yn cymryd rhan.

Bydd y broses gydfargeinio gyntaf yn digwydd cyn y Nadolig, gyda dwy arall wedi'u cynllunio at ddechrau'r Flwyddyn Newydd. Eto, po fwyaf o bobl fydd yn cymryd rhan, y gorau y bydd y fargen, felly mae'n bwysig i bawb ledled Cymru ystyried y cynllun hwn.

### *Beth yw Prynu Ynni ar y Cyd*

Mae'r syniad y tu ôl i gydfargeinio ynni yn debyg i brynu swmp o gynhyrchion i gael pris gwell. Fodd bynnag, yn y broses hon bydd y rhai sydd â diddordeb mewn cael bargen well yn dod at ei gilydd 'ar y cyd' cyn cysylltu â chyflenwyr ynni. Po fwyaf o bobl fydd yn cymryd rhan, y mwyaf deniadol yw'r grŵp o gwsmeriaid i'r cyflenwyr ynni.

Helpodd cynllun prynu ar y cyd tebyg a wnaed yng Nghernyw yn 2012 fwy na **1,000 o bobl arbed £133 ar gyfartaledd** ar eu biliau ynni blynyddol – gyda rhai cartrefi'n arbed dros £700. Felly mae'r budd y mae'n ei gynnig yn amlwg!

## *Sut mae'n gweithio?*

Mae'n syml. Mae 5 cam allweddol.

- **Cofrestru:** Y cam cyntaf yw cofrestru diddordeb, gan roi cymaint o fanylion â phosibl am ddefnydd o ynni'r cartref. Caiff y wybodaeth hon ei defnyddio i amcangyfrif yr arbedion a allai gael eu gwneud, felly y mwyaf cywir yw hwn, y mwyaf tebygol yw'r cartref o sicrhau arbedion o dariff newydd. Bydd angen bil ynni wrth law i wneud hyn fwy na thebyg, a chewch gymorth i'ch helpu i ddeall pa wybodaeth sydd ei hangen unwaith y bydd y broses gofrestru lawn yn agor mewn rhai wythnosau

- **Sefydlu grŵp cydfargeinio:** Bydd y cyfnod cofrestru ar gyfer cynllun cydfargeinio cyntaf Cyd Cymru yn agor ar yr

wythnos yn dechrau 21 Hydref. Bydd y cyfnod cofrestru ar agor am tua chwe wythnos i gasglu'r manylion angenrheidiol gan bawb sydd am gymryd rhan yn y cynllun. Ar ôl i'r cyfnod cofrestru ddod i ben, caiff holl ddata'r sawl sydd wedi cofrestru ei goladu a'i gyflwyno ar gyfer arwerthiant ynni

- **Arwerthiant Ynni:** Yna cynhelir arwerthiant ynni, gydag amryw gwmnïau ynni yn cynnig eu prisiau gorau i'r rheini sydd wedi cofrestru eu diddordeb

- **Cynnig tariff newydd:** Gwneir cynnig personol i'r rheini sydd wedi cofrestru, a chaiff yr arbedion rhagamcanol eu cyfrifo ar sail y wybodaeth a roddwyd gan unigolion yn y cam cofrestru.

- **Chi sy'n penderfynu.** Os, ar ôl gwneud cynnig unigol, eich bod yn derbyn y cynnig, cewch gymorth ar sut i'w dderbyn a newid cyflenwr, yn y ffordd hawsaf posibl. Os yw rhywun yn penderfynu i beidio â derbyn, ac nid oes yn rhaid derbyn, rhoddir gwybodaeth am y cyfle nesaf i gydfargeinio.

## Cefndir:

Ar ddechrau 2013, gwnaeth Cyngor Caerdydd a Bro Morgannwg gais llwyddiannus i Gronfa Cydweithredu Ranbarthol Llywodraeth Cymru gefnogi cynllun prynu ynni ar y cyd i Gymru.

Daeth Bwrdd Project Cyd Cymru â swyddogion ynghyd o bob rhan o Gaerdydd a'r Fro i ddatblygu'r gwaith. I sicrhau y byddai'r cynllun ar agor ac yn briodol i bobl ledled Cymru, sefydlwyd grŵp Rhanddeiliaid Cymru Gyfan a oedd yn cynnwys sefydliadau oedd â diddordeb mewn cydfargeinio. Arsylwodd Grŵp Rhanddeiliaid Cymru Gyfan ddatblygiad Cyd Cymru gan roi mewnbwn ar gamau gwahanol ei ddatblygiad.

Y cam nesaf yw dewis asiant cydfargeinio priodol a dechrau codi ymwybyddiaeth o'r cyfnod cofrestru cyhoeddus sydd ar ddod.

## Datblygu Cynllun Project

Mae'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Caerdydd a chyngor Bro Morgannwg i gyflawni project Cyd Cymru. Mae'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni wedi datblygu cynllun gweithredu manwl hyd at Fawrth 2014, sy'n cynnwys y pethau allweddol i'w cyflawni, caffael yr asiant cydfargeinio, cyflawni cynllun ymgysylltu lleol a methodoleg gwerthuso project.

## Rhesymeg dros Ddewis Asiant Cydfargeinio

Mae'n bwysig i'r Cyngor ddangos gwerth gorau wrth gaffael asiant cydfargeinio ac i sicrhau gwasanaeth cwsmeriaid o'r radd flaenaf. Gan weithio gyda'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni rydym wedi datblygu ystod eang o feini prawf gwerthuso i asiant cydfargeinio Cyd Cymru. Galluogodd gwybodaeth ac arbenigedd yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni i ni lunio meini prawf drafft ym mis Awst ac ers hynny mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflawni gwaith profi'r farchnad cychwynnol gyda nifer o asiantau cydfargeinio a fu'n rhan o brojectau cydfargeinio blaenorol. Ym mis Medi,

gwnaethom lansio ein tendr am asiant cydfargeinio ar GwerthwchiGymru a chaiff canlyniadau'r ymarfer caffael eu terfynu yn ystod yr wythnos yn dechrau 14 Hydref.

Mae rheoliadau Ofgem yn ateb nifer o'r cwestiynau cyffredin, er enghraifft:

- Gall cwsmeriaid Safonol a mesuryddion Rhagdalu gyda dyledion o hyd at £500 newid cyflenwr (Protocol Neilltuo Dyled Ofgem)
- Gwybodaeth am filiau cwsmeriaid sy'n dangos defnydd dros y cyfnod cyfatebol y llynedd, defnydd dros y 12 mis diwethaf a rhagfynegiad dangosol o gostau am y 12 mis nesaf gan ddefnyddio data.

Hefyd, yn ddiweddar mae Ofgem wedi ymgynghori ar ei Adolygiad o'r Farchnad Fanwerthu.
"Nod yr Adolygiad yw gwneud y farchnad yn well wrth wasanaethu diddordebau cwsmeriaid a galluogi unigolion i gael bargen well gan gwmnïau ynni... Os na chaiff apêl ei gwneud, gall gweddill y pecyn ddechrau dod i rym o 23 Hydref 2013."

Bydd hyn yn golygu y bydd nifer o newidiadau pellach i symleiddio tariffau ynni yn dod i rym tuag adeg y broses gydfargeinio gyntaf. Bydd y newidiadau yn lleihau nifer y tariffau y gall pob cyflenwr ynni ei gynnig sy'n cynnwys y gallu i gynnig tariff arbennig i gydfargeinwyr.[i]

Hefyd, rydym yn disgwyl i gyflenwyr ynni gyhoeddi cynnydd mewn prisiau yn hydref 2013.[ii,iii]

## Gwerthuso'r Asiant Cydfargeinio

Gan weithio'n agos â'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni rydym wedi llunio tendr i gaffael asiant cydfargeinio i Cyd Cymru. Ni fydd Cyd Cymru yn codi am wasanaeth yr asiant cydfargeinio, yn hytrach y bwriad yw iddo adennill ei gostau am gyflawni'r project drwy ffioedd cofrestru tariff newydd, sydd fel arfer yn digwydd wrth gydfargeinio.
Rhannwyd y meini prawf Gwerthuso yn 7 categori, gan gynnwys statws terfynol y sefydliadau a gafaelwyd.

O safbwynt y ddarpariaeth a gwasanaeth cwsmeriaid, y categorïau gwerthuso allweddol yw:

- Profiad Blaenorol – rydym yn chwilio am brofiad o brosesau cydfargeinio blaenorol fel y gwyddom fod gan y sefydliad rydym yn gweithio arbenigedd a gwybodaeth a ddysgwyd o brosesau blaenorol i'w cynnig i'r project hwn.
- Cyfleusterau - gwerthuso ystod y cyfleusterau sydd gan yr asiant cydfargeinio, gan gynnwys cyfleusterau i gwsmeriaid ymuno â'r broses (h.y. ar-lein, ar y ffôn ac ati); darparu gwasanaethau yn Gymraeg; y gallu i drafod tariffau tanwydd sengl, tanwydd deuol ac economi 7, i gwsmeriaid debyd uniongyrchol, talu'n chwarterol a rhagdalu; y gallu i nodi cwsmeriaid sydd ar y Gofrestr Gwasanaeth Blaenoriaeth a'r Gostyngiad Cartrefi Cynnes fel nad yw cydfargeinio'n eu rhoi dan anfantais; egluro'r wybodaeth safonol a roddwyd i gwsmeriaid i ddangos manteision ac anfanteision y tariff newydd a gynigwyd.
- Gwasanaeth cwsmeriaid – dull o weithredu holl "daith" y cwsmer yn llawn ac yn eglur; gallu rhoi data ar bob cam o'r broses gydfargeinio; ymrwymo i gefnogi cwsmeriaid drwy'r broses ac ar ôl newid i gyflenwr newydd; gallu cefnogi ceisiadau mewn ieithoedd gwahanol i sicrhau bod y cynllun mor hygyrch â phosibl; parodrwydd i dderbyn ceisiadau gan drigolion o Gymru benbaladr.
- Cynllun Gweithredu - wrth ystyried yr amserlen dynn i lansio'r project mae angen i ni fod yn glir o ran beth sydd

ar gael at lansiad y project a'r amserlenni i roi datblygiadau pellach ar waith.

- Cynaliadwyedd – eglurder dros arferion cynaliadwy a fydd yn cael eu cynnwys wrth gyflawni'r project.
- Gwerth Ychwanegol – eglurder dros lefelau dangosol yr arian y gellid ei gyfrannu at gronfa gymunedol; parodrwydd i rannu cyfrifon llyfr agored; datgelu unrhyw fanteision a ychwanegir y gall y sefydliad eu cynnig i hyrwyddo'r cynllun drwy ei gysylltiadau.

Caiff y broses werthuso a'r penderfyniad ar y tendr llwyddiannus eu gwneud yn ystod yr wythnos yn dechrau ar 14 Hydref 2013.

## Adnoddau Ategol

Bydd adnoddau ategol ar gael i randdeiliaid ledled Cymru i gynorthwyo â hyrwyddo a marchnata'r cynllun yn eu hardaloedd nhw. Eto, gellir eu haddasu i'ch anghenion lleol, ar yr amod y caiff brand Cyd Cymru ei ddefnyddio. Bydd hyn yn cynnwys:

- Taflenni gwybodaeth
- Dyluniadau baneri sefyll
- Dyluniadau baneri arferol
- Posteri A3 wedi'u dylunio
- Cardiau Busnes wedi'u dylunio
- Baner Finyl gyda thyllau wedi'i dylunio
- Erthyglau i'w cynnwys mewn cyhoeddiadau lleol

Bydd y rhain ar gael mewn pecyn cymorth electronig y gellir ei lawrlwytho o'r wefan neu ar DVD ar gais

## Cerrig Milltir Allweddol

**wythnos yn dechrau 14 Hydref**

- Penodi Asiant Cydfargeinio i wasanaethu'r project tan fis Mawrth 2014

**wythnos yn dechrau 21 Hydref**

- Proses Gydfargeinio Gyntaf yn dechrau

**Tachwedd**

- Dyddiadau i'r ail a'r drydedd broses cydfargeinio i'w cadarnhau

**Rhagfyr**

- Disgwylir i'r broses gyntaf ddod i ben ar ddechrau mis Rhagfyr. Yna caiff y cwsmer gynigion cyn y Nadolig ac e-byst/llythyrau atgoffa yn y Flwyddyn Newydd.

**Ionawr**

- Caiff canlyniadau'r broses gydfargeinio gyntaf eu rhannu â Bwrdd Project Cyd Cymru.
- Rownd gyntaf yr Arolwg Boddhad Cwsmeriaid i'w chynnal.
- Ail rownd gydfargeinio'n dechrau, dod i ben ym mis Chwefror.

**Chwefror**

- Caiff canlyniadau arolygon Boddhad Cwsmeriaid o'r rownd gyntaf eu rhannu â Bwrdd Project Cyd Cymru.
- Ail rownd gydfargeinio yn cael cynigion.
- Trydedd rownd gydfargeinio yn agor, yn dod i ben ddiwedd mis Mawrth.

**Mawrth**

- Caiff canlyniadau'r ail broses gydfargeinio eu rhannu â Bwrdd Project Cyd Cymru.
- Arolwg Boddhad Cwsmeriaid ar yr ail rownd i'w gynnal.

i https://www.ofgem.gov.uk/sites/default/files/docs/decisions/the_retail_market_review_-_implementation_of_simpler_tariff_choices_and_clearer_information.pdf

ii http://www.telegraph.co.uk/finance/personalfinance/consumertips/household-bills/10232886/Energy-volcano-to-erupt-with-10-per-cent-price-hikes.html

iii http://www.moneysavingexpert.com/utilities/you-switch-gas-electricity

# Cynllun Ynni Cyd Cymru

**Ymgysylltu Cychwynnol**

*Timau Mewnol/Prosiectau:*

- Tai
- Refeniw a Buddiannau
- Tîm o Amgylch y Teulu
- Cefnogi Pobl
- Cychwyn Cadarn
- Cydlynydd Pobl Hŷn
- Cydlynydd Gofalwyr
- Penaethiaid a Rheolwyr Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc, Iechyd a Lles a'r Economi
- Rheolwr Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd
- Tai Gofal
- Cynlluniau Cymunedol
- Swyddog Polisi Tai
- Rheolwr Adfywio Cymunedol
- Gwasanaeth Llyfrgell
- Swyddogion Cyswllt Cwsmer
- Galw Gwynedd
- Rheolwyr Gofal Plant ac Oedolion

*Aelodau Etholedig*

- Yn arbennig Pencampwr Gwrthdlodi
- Cabinet
- Yr Aelodau i gyd

*External Organisations:*

- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Mantell Gwynedd
- Cymunedau'n Gyntaf
- Cymdeithasau Tai
- Cyngor ar Bopeth
- Undebau Credyd
- Cymdeithasau Tenantiaid a Phreswylwyr
- Job Centre Plus/DWP

Draft

**Codi Ymwybyddiaeth Botensial/Gweithgaredd Marchnata**

*Opsiynau Dim Cost/Cost Isel*

- Gwefannau - Mewnrwyd/Allanol
- Cyfrwng Cymdeithasol – Facebook/Twitter
- Ar lafar
    - Gwasanaethau Rheng Flaen/gweithwyr cefnogol
    - Cyfarfodydd Tîm
    - Rhwydweithiau e-bost staff/cysylltiadau
    - Aelodau Etholedig
    - Cynghorau Tref a Chymuned
- E-bost i bob aelod o staff
- Taflen Gyflog
- Cylchlythyrau
- Digwyddiadau

*Opsiynau Cost*

- Taflenni/Posteri
- Cylchlythyron
- Papur newydd
- Radio

Draft

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Corfforaethol |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | Arolwg Staff 2013 |
| **DYDDIAD** | 14 Tachwedd 2013 |
| **RHESWM AM GYFLWYNO'R ADRODDIAD** | Cyflwyno canlyniadau'r arolwg staff diweddar |
| **AWDUR** | Steve Barnard, Rheolwr Adnoddau Dynol a Datblygu'r Gyfundrefn |

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Gweithredodd yr Arolwg Staff diweddaraf yn Chwefror 2013. Gweithredir yr arolwg hwn bob dwy flynedd; hwn ydi'r drydydd achlysur i'r Cyngor mynd trwy'r broses.

1.2 Mae'r arolwg yn mesur ymgysylltiad staff. Diffinnir hwn gan Best Companies, y cwmni comisiynwyd i weithredu'r arolwg, fel "an employee's drive to use all their ingenuity and resources for the benefit of the organisation".

1.3 Mae ymchwil wedi profi cysylltiad clir rhwng lefelau ymgysylltiad staff mewn cyfundrefn a'i berfformiad.

1.4 Mae'r arolwg yn adrodd canlyniadau yn erbyn wyth ffactor sydd gyda dylanwad ar ymgysylltiad staff sef arweinyddiaeth, rheolwyr, datblygiad personol, y Cyngor, gweithio fel tîm, lles, chwarae teg a rhoi rhywbeth yn nol.

1.5 Mae'r arolwg yn agored i holl staff y Cyngor ac eithrio staff sy'n gyflogedig yn uniongyrchol gan ysgolion y Sir. Y canran o staff ymatebodd i'r tri arolwg oedd:

| | |
|---|---|
| 2009 | 31% |
| 2011 | 31% |
| 2013 | 26% |

Ystyrir lefel ymateb i fod yn gadarn yn ystadegol. Yn dilyn adborth gwnaethpwyd ymdrechion i sicrhau mynediad cyfleus at gyfrifiadur i staff sydd heb fynediad fel arfer er mwyn iddynt allu cwblhau'r arolwg yn ystod eu horiau gwaith.

**2.0 CRYNODEB O GANLYNIADAU 2013**

**2.1** Cynyddodd ymgysylltiad staff 4.9% rhwng yr arolwg gyntaf a'r ail. Dengys gostyngiad bach rhwng 2011 a 2013 ond mae'r lefel yn parhau'n 3.2% yn uwch na'r waelodlin gosodwyd yn 2009; dadansoddiad o lefelau ymgysylltiad staff cenedlaethol a rhyngwladol yn dangos yr un tueddiad dros yr un cyfnod.

2.2 Dengys cynnydd mewn sgôr ar gyfer pedwar o'r wyth ffactor gyda'r pedwar arall yn dangos gostyngiad.

2.3 Yn yr un modd a chyn arolygon mae lefelau ymgysylltiad staff yn amrywio o adran i adran gyda newidiadau o un arolwg i'r nesaf dangos yr un .

2.4 prif negeseuon yr arolwg 2013 yw:

- Ar adegau nid yw negeseuon allweddol gan yr arweinyddiaeth ynghylch a chyfeiriad, gwerthoedd a'r dyfodol yn cyrraedd yr holl staff gyda gweithrediadau yn weithiau'n edrych yn wahanol i'r neges.

- Staff angen yr arweinyddiaeth i weld yn arwain, ysgogi ac ysbrydoli'r gweithlu ac i gydnabod a gwerthfawrogi eu gwaith.

- Mae teimlad cryf o falchder ymysg staff mewn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl Gwynedd. Mae balchder penodol yn yr unigrwydd o weithio i gyfundrefn sy'n defnyddio'r Gymraeg fel ei iaith weinyddol .

- 'Roedd y ffactor Rheolwyr yr unig un i beidio dangos cynnydd rhwng arolygon 2009 a 2011. Fel canlyniad gweithredwyd rhaglen i hyfforddi a datblygu'r rheolwyr ac mae'r sgôr ar gyfer y ffactor yma wedi cynyddu ar gyfer yr arolwg diweddaraf.

- Mae'r ffactor sy'n mesur pwysau gwaith, y cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a'u heffaith ar les personol a pherfformiad wedi gostwng ers 2011 pan oedd y ffactor uchaf o'r wyth. Sgôr y ffactor hwn ydi'r unig un sy'n is yn 2013 na'r arolwg gwreiddiol yn 2009.

- Mae gweithio fel tîm rhwng cydweithwyr agos yn ffynnu ond mae teimlad buasai'r Cyngor yn cael y budd o adrannau a thimau yn gweithio yn well gyda'i gilydd.

**3.0 MEINCNODI**

3.1 Yn ychwanegol i'r gymhariaeth gyda chyn arolygon, mae'r canlyniadau yn cael eu meincnodi yn erbyn cyfundrefnau eraill. Mae hwn yn heriol oherwydd nid oes awdurdod unedol o'r yr un maint yn rhan o'r arolygon sydd wedi'u cyhoeddi gan Best Companies. Ond mae un awdurdod unedol Cymreig sydd wedi cymryd rhan yn yr arolwg ond heb gyhoeddi'i ganlyniadau wedi cytuno i gymharu â rhannu ymarfer da.

4.0 **RHAGLEN WAITH**

4.1 Fel canlyniad i'r Arolwg Staff mae'r Adran Adnoddau Dynol yn gweithredu rhaglen waith i ddatrys y materion codwyd. Mae'r rhaglen yn cynnwys

- adolygu'r cynllun cyfathrebu mewnol
- codi ymwybyddiaeth o'r effaith positif y Cyngor ar y gymuned a'r amgylchedd
- adolygu'r rhaglen dysgu a datblygu rheolwyr
- adolygu'r cyfleoedd i weithio'n hyblyg
- ymchwilio am ffyrdd i hyrwyddo gweithio'n drawsadrannol

**SJB TACH 2013**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PANEL IECHYD, DIOGELWCH A LLES CORFFORAETHOL** |
| **DYDDIAD:** | **13 Mehefin 2013** |
| **TEITL:** | **Absenoldebau Salwch 2012-13** |
| **ARGYMHELLIAD:** | **Er gwybodaeth ac ystyriaeth** |
| **AWDUR:** | **UWCH REOLWR ADNODDAU DYNOL** |

## CEFNDIR


Mae'r Cyngor, yn ystod y dair blynedd diwethaf yn arbennig, wedi rhoi cryn bwyslais ar reoli absenoldebau yn effeithiol ac hynny law yn llaw hefo hybu iechyd a lles o fewn y gweithlu.

Mae'r nifer o ddyddiau salwch ar gyfer pob aelod o staff yn un o fesuryddion allweddol y Cyngor ac mae perfformiad ar y mater hwn yn cael ei adrodd yn flynyddol i'r Cynulliad.

Profwyd gostyngiad sylweddol yn y nifer o ddyddiau a gollwyd oherwydd salwch ar lefel corfforaethol ers diwedd 2009-10 pryd yr oedd cyfartaledd absenoldeb salwch y pen ar draws y Cyngor yn 10 diwrnod. Roedd hynny yn cyfateb hefo bron i 68,000 o ddyddiau salwch ar draws yr holl adrannau.

Daeth y nifer dyddiau o absenoldeb salwch y pen i lawr i lai na 9 diwrnod erbyn diwedd 2010-11 ac i 8.3 diwrnod y pen erbyn diwedd 2011-12, sef gostyngiad o 18,000 o ddyddiau a gollwyd oherwydd salwch mewn cyfnod o ddwy flynedd.

Er i nifer o adrannau lwyddo i leihau y nifer diwrnodau a gollwyd oherwydd salwch eto yn ystod 2012-13, bu i'r cyfartaledd corfforaethol gynyddu i 8.5 diwrnod y pen.



Nid yw'r perfformiad o 8.5 diwrnod y pen cystal a'r llynedd ond mae'n parhau yr ail berfformiad blynyddol gorau ar lefel hanesyddol Cyngor Gwynedd.

Roedd y cynnydd yn y nifer dyddiau a gollwyd yn bennaf oherwydd cynnydd sylweddol mewn absenoldebau salwch o fewn dwy Adran yn benodol, sef y gyn-Adran Darparu a Hamdden a'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol. Pe byddai'r perfformiad o fewn y ddwy Adran wedi parhau i arddangos y gwelliant a brofwyd yn ystod y ddwy flynedd blaenorol, yna mae'n bur debyg y byddai'r targed o leihau'r cyfartaledd absenoldeb salwch i 8 diwrnod y pen wedi'i gyflawni yn ystod 2012-13.

***Perfformiad 2012-13 yn ol Adran unigol***

| Crynodeb Gwasanaeth | Targed 2012-13 | Dangosydd Cronnus |
|---|---|---|
| **Addysg - Athrawon a Staff Ategol** | 6.75 | **6.74** |
| **Addysg - Staff Swyddfa** | 4.50 | **3.50** |
| **Adnoddau Dynol** | 7.00 | **7.74** |
| **Cefnffyrdd** | 3.50 | **2.78** |
| **Cyllid** | 6.50 | **8.20** |
| **Darparu a Hamdden** | 11.00 | **13.34** |
| **Democratiaeth a Chyfreithiol** | 6.00 | **6.37** |
| **Economi a Chymuned** | 4.40 | **2.98** |
| **Gofal Cwsmer** | 7.30 | **7.24** |
| **Tai Gwasanaethau Cymdeithasol** | 8.00 | **8.13** |
| **Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | 9.75 | **11.83** |
| **Rheoleiddio** | 6.00 | **5.51** |
| **Strategol a Gwella a'r Tim Arweinyddiaeth** | 7.50 | **6.25** |
| **Ymgynghoriaeth** | 6.50 | **6.74** |
| **Cyfanswm** | 7.88 | **8.52** |

Roedd y patrwm o gynnydd mewn absenoldebau, o fewn yr Adran Darparu a Hamdden yn benodol, wedi'i adnabod yn ystod y flwyddyn ac fe gymrwyd camau i arafu'r cynnydd a gwyrdroi'r patrwm oedd yn ymddangos. Cynhaliwyd cyfarfodydd arbennig hefo rheolwyr a goruchwylwyr o fewn y maes gofal yn arbennig er mwyn sicrhau bod trefniadau rheoli absenoldebau yn cael eu gweithredu a bod y gynhaliaeth feddygol o fewn yr Uned Iechyd Galwedigaethol yn cael ei defnyddio yn gyson ar draws y gwasanaethau.

Ymhellach, cyflwynwyd trefniadau gan yr Adran i gyhoeddi tabl cynghrair rheolaidd o fewn yr Uned Breswyl a Dydd, ple bo'r cartrefi unigol yn derbyn gwybodaeth am eu perfformiad mewn cymhariaeth a'r cartrefi eraill.

Bu i'r ymdrechion hyn arwain at arafu'r cynnydd mewn absenoldebau o fewn yr Adran ac at leihad arwyddocaol yn ystod chwarter olaf 2012-13, sydd yn argoeli'n dda ar gyfer gwelliant yn y perfformiad yn ystod y flwyddyn i ddod.

Ffactor allweddol yn y gostyngiad yn ystod y dair blynedd ddiwethaf yw ymdrechion y prosiect lleihau absenoldebau (ers Medi, 2010) ple bo swyddogion personel, ymgynghorwyr iechyd galwedigaethol a rheolwyr yn y

gwasanaethau yn cyd-weithio i reoli absenoldebau ac hybu iechyd a lles yn gyffredinol.

Cynhaliwyd gweithdai rheoli absenoldebau gyda rheolwyr o fewn gwasanaethau penodol er mwyn cyfleu'r negeseuon ynglŷn ag arferion gorau rheoli absenoldebau ac fe gyflwynwyd trefniant o gynnal paneli medrusrwydd ar sail afiechyd fel rhan o'r ymgyrch i leihau absenoldebau.

Mae'r paneli medrusrwydd ar sail afiechyd hyn wedi cyfrannu at y lleihad a nodwyd ac hynny yn bennaf, yn y lle cyntaf, trwy ddiswyddo nifer o aelodau staff ar sail afiechyd – staff a fu'n absennol ers peth amser a phle nad oedd yn debygol y byddant yn gallu dychwelyd i weithio. Fodd bynnag, mae'r paneli hyn, yn ogystal a dod i benderfyniad o ddiswyddo unigolyn, yn gallu;

- argymell adleoliad priodol
- gosod targedau ar gyfer gwella presenoldeb
- bodloni bod y presenoldeb a'r afiechyd wedi gwella'n ddigonol fel nad oes angen gweithrediad pellach

Mae parhad defnydd cyson a phwrpasol o'r paneli medrusrwydd ar sail afiechyd yn allweddol i lwyddiant y drefn rheoli absenoldebau a bydd y swyddogion personel yn cyd-weithio'n agos hefo rheolwyr perthnasol er mwyn sicrhau hynny.

**MATHAU O SALWCH**

Er mwyn llwyddo i wella iechyd a lles a lleihau absenoldebau, mae angen i'r ffocws fod ar, nid yn unig, yr adrannau hynny ple bo lefel absenoldeb yn uchel ond hefyd ar y rhesymau am yr absenoldeb salwch. Gweler isod wybodaeth ystadegol yng nghyswllt y rhesymau a roddwyd am absenoldebau salwch o fewn y Cyngor dros y bedair blynedd ddiwethaf.

| Corfforaethol - Canran | 09_10 | 10_11 | 11_12 | 12_13 |
|---|---|---|---|---|
| Arall | 28.6% | 29.0% | 29.7% | 25.3% |
| Beichiogrwydd | 1.5% | 2.0% | 1.8% | 1.4% |
| Brest/Anadlol | 4.3% | 4.6% | 5.5% | 4.0% |
| Calon/Gwaed | 2.6% | 2.3% | 2.9% | 3.3% |
| Cefn/Gwddf | 8.4% | 5.9% | 8.2% | 7.0% |
| Ceg / Llygaid / Clust/ Trwyn | 3.5% | 4.8% | 5.0% | 4.5% |
| Cenhedlol-droeth | 2.4% | 1.5% | 1.4% | 0.8% |
| Cyhyrsgerbydol | 13.4% | 10.5% | 9.7% | 12.3% |
| Haint | 13.0% | 13.5% | 10.4% | 14.1% |
| Niwrolegol | 2.8% | 3.4% | 3.6% | 4.0% |
| Straen | 12.8% | 16.2% | 13.7% | 15.5% |
| Stumog/Treulio | 6.7% | 6.2% | 8.0% | 7.8% |

Yn hanesyddol, mae "straen" a "cyhyrysgerbydol" wedi ymddangos fel y prif resymau am absenoldeb salwch ac mae ymdrechion y Cyngor wedi canolbwyntio ar wella ymwybyddiaeth staff o'r dulliau a thechnegau i osgoi/ymdrin a'r naill a'r llall. Sefydlwyd yr Uned Symud a Thrin o fewn yr

Adran Adnoddau Dynol ers rhai blynyddoedd bellach ac mae nifer helaeth o staff wedi, ac yn parhau, i dderbyn hyfforddiant yn y maes hwn mewn ymdrech i'w haddysgu am beryglon codi pwysau yn anghywir. Hefyd, ers Gorffennaf, 2011, mae gwasanaeth ffisio yn cael ei ddarparu trwy gwmni Flex.

Mae'r cynnydd mewn absenoldebau oherwydd rhesymau cyhyrysgerbydol yn ystod 2012-13 yn bryderus ac mae angen dadansoddiad pellach o'r ystadegau hyn, yn enwedig o ystyried bod y nifer dyddiau a gollwyd yn y ddwy flynedd blaenorol wedi gostwng e.e. angen ystyried os yw'r cynnydd yn cydfynd a'r cynnydd mewn absenoldeb o fewn y maes gofal, ple bo problemau cyhyrysgerbydol wedi'u hamlygu yn hanesyddol.

Nid yw'r cynnydd mewn straen yn syndod mewn gwirionedd oherwydd bod amheuaeth ers peth amser bod y gwir canran o salwch yn sgil "straen" yn uwch na'r canran a gyhoeddir yn flynyddol h.y. bod peth salwch oherwydd straen yn cael ei adrodd fel "sal arall". Mae'r canran o salwch adroddir fel "sal arall" wedi gostwng yn ystod 2012-13 ac mae ymdrechion i leihau'r canran hwnnw ymhellach yn y flwyddyn nesaf h.y. mae'n allweddol ein bod yn ymwybodol o'r rhesymau am absenoldeb os am ddarparu'r gynhaliaeth mwyaf effeithiol a phan fo chwarter y nifer o ddyddiau salwch o fewn y Cyngor yn cael eu nodi fel "sal arall", mae'r gwaith hwn yn gorfod bod yn un o'r blaenoriaethau i'r dyfodol.

Cynhaliwyd adolygiad o'r gwasanaeth cwnsela,  a ddarperir gan y Cyngor, yn ystod y flwyddyn diwethaf ac mae cytundeb newydd tair blynedd i ddechrau ar y 1af o Orffennaf eleni, fydd yn cynnwys opsiwn i ddarparu canolfannau "galw i mewn" yng nghanolfannau'r Cyngor.

Ymhellach, ac eto er mwyn cefnogi staff i ymdrin a sefyllfaoedd o straen, mae cyfres o weithdai lles meddyliol ar gychwyn i staff ar draws y Cyngor. Darperir y sesiynau hyn gan Brifysgol Cymru, Bangor gyda'r trefniant yn caniatau i ni gynnal pedair cyfres, o chwe sesiwn yr un, yn flynyddol am gyfnod o ddwy flynedd yn y lle cyntaf.

**GWEITHGOR RHEOLI ABSENOLDEBAU**

Mae Gweithgor Rheoli Absenoldebau wedi'i sefydlu ers cychwyn ar y Prosiect Lleihau Absenoldebau yn 2010. Mae'r Gweithgor yn cyfarfod yn chwarterol ac yn dadansoddi'r wybodaeth sydd i law er mwyn adnabod patrymau salwch ar draws adrannau'r Cyngor. Mae'r swyddogion personel cyswllt ar gyfer pob Adran yn adrodd i'r Gweithgor ar y sylw sy'n cael ei roi i bob achos salwch tymor-hir a'r achosion salwch tymor-byr niferus ac mae'r trefniant hwn yn gymorth i sicrhau bod sylw amserol a phriodol yn cael ei roi i achosion unigol. Un o ddeilliannau gweithgarwch y Gweithgor hwn yw bod pob rheolwr yn derbyn crynodeb o gofnod salwch ei uned fusnes yn fisol fel un ymdrech arall i sicrhau ymwybyddiaeth fyw o'r sefyllfa absenoldebau o fewn ei g/chyfrifoldeb.

Fel rhan o'r ffocws hwn, mae'r polisiau "rheoli absenoldebau" a "dychwelyd i'r gwaith yn raddol" wedi'u hadolygu yn y flwyddyn diwethaf ac mae polisi atodol

yng nghyswllt ymdrin a gwaeledd difrifol hefyd wedi'i gyflwyno am y tro cyntaf o fewn y Cyngor.

**CASGLIAD**

Mae targedau heriol wedi'u gosod a'u cytuno arnynt ar gyfer holl adrannau'r Cyngor yn 2013/14, gyda'r targedau unigol wedi cymryd i ystyriaeth perfformiad y dair blynedd blaenorol. Mae'r targed corfforaethol o 8 diwrnod y pen ar gyfer 2013-14 wedi'i osod ar sail y disgwyliad o berfformiad pob Adran.

***Tabl Targedau Adrannau 2013-14***

| Crynodeb Gwasanaeth | Targed 2012-13 | Dangosydd Cronnus | Targed 2013-14 |
|---|---|---|---|
| **Addysg - Athrawon a Staff Ategol** | 6.75 | **6.74** | 6.7 |
| **Addysg - Staff Swyddfa** | 4.50 | **3.50** | 3.5 |
| **Adnoddau Dynol** | 7.00 | **7.74** | 6.5 |
| **Cefnffyrdd** | 3.50 | **2.78** | 2.5 |
| **Cyllid** | 6.50 | **8.20** | 7 |
| **Darparu a Hamdden** | 11.00 | **13.34** | 11.5* |
| **Democratiaeth a Chyfreithiol** | 6.00 | **6.37** | 6 |
| **Economi a Chymuned** | 4.40 | **2.98** | 3.7 |
| **Gofal Cwsmer** | 7.30 | **7.24** | 7 |
| **Tai Gwasanaethau Cymdeithasol** | 8.00 | **8.13** | 7.75* |
| **Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | 9.75 | **11.83** | 10.75 |
| **Rheoleiddio** | 6.00 | **5.51** | 5.5 |
| **Strategol a Gwella a'r Tim Arweinyddiaeth** | 7.50 | **6.25** | 7 |
| **Ymgynghoriaeth** | 6.50 | **6.74** | 6.5 |
| **Cyfanswm** | 7.88 | **8.52** | 8 |

Os y llwyddir i gyfarch y blaenoriaethau sydd wedi'u nodi o fewn yr adroddiad hon, yna gellir ystyried y targed hwn, a fyddai'r perfformiad gorau erioed i'r Cyngor, yn un realistig a chyrhaeddadwy.

GO/Absenoldebau1213

Ymddeoliadau

Yn ystod blwyddyn 2011/12 fe ailgyflogwyd 25 (0.33%) o gynweithwyr y cyngor.

Penodwyd 13 gan brifathrawon/cyrff llywodraethol fel athrawon llanw neu weinyddwyr am gyfnodau penodol.

O'r 12 gweddilliol, ar draws yr holl gyngor, roeddynt i gyd yn achlysurol neu am gyfnodau penodol arwahan i un sy'n swyddog safle sipsiwn 15 awr yr wythnos.

Mae'n werth nodi yn y cydestun hwn beth a fabwysiadodd y cyngor llawn yn Mehefin 2012 ar y mater hwn, sef:

**"Nid yw'r Cyngor yn eithrio cyn-swyddogion, a dderbyniodd daliadau diswyddo, ar sail gormodedd neu bensiwn, rhag cael eu hail gyflogi.**

**Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn ystyried pob ymgeisydd yn ôl ei haeddiant ei hun a bydd yn penodi gyda'r bwriad o gyflawni'r effeithlonrwydd gorau ar gyfer y gwasanaeth a'r gwerth gorau ar gyfer ei drethdalwyr.**

**Byddai'r fath benodiad, os byddai'n cael ei wneud, yn destun unrhyw leihad a nodir yn y Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol."**

14/11/13

| | |
|---|---|
| Pwyllgor | Pwyllgor Craffu Corfforaethol |
| Dyddiad | 14 Tachwedd 2013 |
| Eitem | Adroddiad Craffu Blynyddol 2012-13 |
| Awdur | Gareth James, Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu |
| Prif faterion sydd angen sylw gan yr Aelodau | • Ystyried cynnwys yr Atodiad, cynnig newidiadau a chymeradwyo os yn briodol fel cofnod o waith y Pwyllgor Craffu am y flwyddyn i'w gynnwys yn yr Adroddiad Craffu Blynyddol<br>• Ystyried ac argymell sut orau i dracio gweithrediad yr argymhellion |

1 <u>Cyd-destun</u>

1.1 Mae'r *Ganolfan ar gyfer Craffu Cyhoeddus* yn cynnal *Arolwg Blynyddol o Drosolwg a Chraffu* ar draws Cymru a Lloegr.

1.2 Un o brif ddarganfyddiadau'r Arolwg eleni yw bod y Cynghorau sydd yn tracio cynnydd yr argymhellion a wneir gan y Craffwyr yn medru dangos yn gliriach beth yw effaith gwaith y Craffwyr.

1.3 Mae'r Arolwg yn nodi bod gwahaniaeth rhwng y nifer o argymhellion sy'n cael eu <u>**Derbyn**</u> gan yr Aelod Cabinet a'r nifer sy'n cael eu <u>**Gweithredu**</u> gan yr Aelod Cabinet.

1.4 Dyma'r ffigyrau ar gyfer y Cynghorau a oedd yn tracio argymhellion yng Nghymru a Lloegr yn ystod 2011-12:

- Canran Argymhellion yn cael eu Derbyn – 83%
- Canran Argymhellion yn cael eu Gweithredu – 62%

2 <u>Sefyllfa Gwynedd</u>

2.1 Mae'r sefyllfa o safbwynt Argymhellion y Pwyllgor Craffu Corfforaethol sy'n cael eu Derbyn gan yr Aelodau Cabinet ar gyfer 2012-13 fel a ganlyn:

- Derbyn – 14
- Ystyried – 3
- Gwrthod – 2
- Dim Ymateb - 11
- Canran – 73%

2.2 Mae'r ffigwr uchod yn is na'r cyfartaledd ar draws Cymru a Lloegr

2.3 Nid oes asesiad wedi'i gynnal o'r Argymhellion a gafodd eu Gweithredu.

# Pwyllgor Craffu Corfforaethol

## Prif Weithgaredd 2012-13

**Eitemau**

**A1 - Strategaeth Gymunedol**

**A2 - Strategaeth Arbedion**

**A3 - Meddylfryd Systemau**

**A4 - Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2011-12**

**A5 - Cydbwysedd Gwledig-Trefol**

**A6 - Partneriaethau a Chydweithio**

**A7 - Caffael Cynaliadwy**

A1 Strategaeth Gymunedol

Mae'r Strategaeth Gymunedol yn anelu i sicrhau bod budd-ddeiliaid allweddol y Sir yn cydweithio ar lunio gweledigaeth a chynllunio a darparu gwasanaethau er budd pobl Gwynedd.

Y Cyngor sy'n gyfrifol am arwain y gwaith yng Ngwynedd ond mae'n cynnwys y Bwrdd Iechyd, Heddlu, colegau ac eraill.

Yn ogystal, mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn wedi ymrwymo i lunio un Strategaeth ar y cyd o hyn allan.

Beth wnaeth y Craffwyr

Ystyriwyd

- Beth lwyddwyd i'w gyflawni a pha bethau sydd yn dal heb gael eu cyflawni o Strategaeth *Gwynedd ar y Cyd 2008-12?*
- Ydi'r materion hynny wedi cael sylw priodol yn y fersiwn ddiweddaraf o'r Strategaeth Gymunedol - *Gwella Gwynedd Gyda'n Gilydd 2011?*
- Beth yw effaith y Strategaeth ar bobl Gwynedd?

Argymhellion gan y Craffwyr i'r Cynghorydd Dyfed Edwards, Arweinydd y Cyngor

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad A1.1**<br>Sicrhau y rhoddir ystyriaeth benodol i gynnal y gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig yn ogystal a threfol pan yn cynllunio gwasanaethau ar y cyd ar draws y Sir. | **Derbyn** |
| **Argymhelliad A1.2**<br>Ystyried tynnu allan o brosiectau cydweithio lle mae'n amlwg nad oes ymrwymiad priodol gan bartneriaid eraill. Yn enwedig, lle bo costau sylweddol i'r Cyngor o geisio cynnal y bartneriaeth. | **Derbyn** |
| **Argymhelliad A1.3**<br>Rhoi sylw i'r angen i gael mesuryddion sy'n rhoi pwyslais ar effaith ar ein trigolion. | **Derbyn** |
| **Argymhelliad A1.4**<br>Yn gyffredinol, byddem yn croesawu atodiadau sy'n tystiolaethu sylwadau yn eich adroddiadau yn y dyfodol. | **Derbyn** |

Effaith Disgwyliedig

- **Bod y gwaith o gynllunio gwasanaethau gan y Cyngor a'i bartneriaid yn digwydd gan roi ystyriaeth benodol i anghenion cymunedau gwledig a threfol yng Ngwynedd.**
- **Bod y Cyngor yn gwneud y defnydd gorau posibl o adnoddau prin er budd dinasyddion y Sir o safbwynt cydweithio.**
- **Bod dinasyddion y Sir yn medru gweld drostynt eu hunain pa mor llwyddiannus y bu'r Cynor yn dylanwadu ar ei bartneriaid i gyflawni er budd y trigolion.**

A2 Strategaeth Arbedion

Er mwyn cynllunio a gwireddu arbedion o £37.2m, mae'r Cyngor wedi bod yn ystyried ers 2008 sut orau i gyflawni hyn wrth gynnal gwasanaethau o'r safon gorau posibl.

Beth wnaeth y Craffwyr

Ystyriwyd

- Adroddiad gan yr Aelod Cabinet yn darparu rhywfaint o gefndir i'r maes hwn er budd yr aelodau newydd ac yn egluro lle mae'r Strategaeth wedi cyrraedd erbyn hyn.
- Diweddariad am y bwlch cyllidol yr ydym yn ei wynebu, y cynnydd a wnaed hyd yn hyn a'r cynlluniau i gyfarch y gweddill
- Problemau gwireddu rhai cynlluniau a'r hyn a wnaed i ddelio â hynny
- Nodwyd bod yr Aelod Cabinet wedi comisiynu gwaith I wneud asesiad o beth sydd wedi digwydd I fesurau perfformiad yn y meysydd hynny lle bu cyflawni ar arbedion effiethlonrywdd, ond nad oedd yn aeddfed I gyflwyno gwybodaeth am hyn ar adeg craffu'r eitem (Gorffennaf 2012)

Argymhellion gan y Craffwyr i'r Cynghorydd Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Adnoddau

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad A2.1**<br>Os yw'n fwriad gennych ofyn i ysgolion ddarganfod arbedion effeithlonrwydd, a wnewch chi ystyried rhoi targed mwy heriol i'r ysgolion hynny sy'n dal balansau uchel yn hytrach na chyflwyno targed unffurf i bawb. | **Ystyried** |
| **Argymhelliad A2.2**<br>Darparu adroddiadau pellach i'r pwyllgor hwn ar gynnydd y 62 cynllun fydd yn cael eu gwireddu yn 2013/4. | **Derbyn** |
| **Argymhelliad A2.3**<br>Darparu gwybodaeth ynglŷn â'r niferoedd staff sy'n ymddeol ac yn cael eu hail-gyflogi gan y Cyngor o dan het wahanol. | **Derbyn** |
| **Argymhelliad A2.4**<br>Adrodd yn ôl i'r pwyllgor hwn ymhellach ymlaen yn y flwyddyn ariannol ynglŷn ag unrhyw gynnydd neu ddatblygiadau pellach. | **Derbyn** |

Effaith Disgwyliedig

- **Adnabod effaith cyflawni'r Startegaeth Ariannol ar wasanaethau i bobl Gwynedd**
- **Amlygu problemau a diffygion posibl yn sgîl gweithredu'r Strategaeth**
- **Lleihau impact posibl ar drefniadau addysgol drwy ddefnyddio arian wrth gefn yr ysgolion i liniaru effaith gweithredu'r strategaeth ar gynlluniau addysgiadol.**

A3 Meddylfryd Systemau(Systems Thinking)

- Gwnaed addewid gan y Cyngor yn 2009 i wella gwasanaethau i gwsmeriaid drwy ddefnyddio *Systems Thinking.*
- Mae *Systems Thinking* yn gynllun cydnabyddedig ym maes datblygu busnes sy'n anelu i symleiddio prosesau busnes wrth gynnal safon neu wella gwasanaeth i'r cwsmer
- Byddai disgwyl i hyn wireddu arbediad

Beth wnaeth y Craffwyr

Cynhaliwyd Ymchwiliad Craffu ac fe ystyriwyd

- Llwyddiannau a diffygion y ddau gynllun peilot yn y Gwasanaeth Cynnal a Chadw (Tim Ymyrraeth) a'r Gwasanaeth Digartrefedd
- A ydyw wedi gwella gwasanaeth i ddefnyddwyr?
- A ydyw wedi gwireddu arbediad?

Argymhellion gan y Craffwyr i'r Cynghorydd Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Adnoddau

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad A3.1**<br>Ymestyn Meddylfryd Systemau ar draws y Cyngor | Derbyn |
| **Argymhelliad A3.2**<br>**Sicrhau dealltwriaeth drwyadl yr Aelodau Cabinet ac Uwch Reolwyr o egwyddorion Meddylfryd Systemau er mwyn gwireddu'r potensial i ail-gynllunio gwasanaethau'r Cyngor er budd y cwsmer** | Derbyn |
| **Argymhelliad A3.3**<br>**Darparu cefnogaeth lawn i gynnal y 'day job' tro bo'r swyddogion yn gweithio ar gynllun Meddylfryd Systemau** | Derbyn |
| **Argymhelliad A3.4**<br>Datblygu'r cynllun ar draws y Cyngor drwy daro balans rhwng gwneud y gwaith yn fewnol a chael menbwn allanol ac annibynnol yn ôl yr angen | Derbyn |
| **Argymhelliad A3.5**<br>**Bod yr wybodaeth a gafwyd gan y cwsmeriaid a'r partneriaid yn cael ei ystyried yn drylwyr er mwyn asesu natur y galw a gwir anghenion y cwsmer.** | Gwrthod |
| **Argymhelliad A3.6**<br>**Bod y mesuryddion priodol yn cael eu hystyried yn ofalus er mwyn medru asesu llwyddiannau a phroblemau gyda gweithredu'r cynllun ar draws y Cyngor gan adrodd ar unrhyw faterion o bryder i'r Cabinet** | Derbyn |
| **Argymhelliad A3.7**<br>**Mae'r broses hyd yn hyn wedi bod yn rhy araf – mae'n hanfodol sicrhau bod y gwaith yn mynd rhagddo'n gyflymach yn y dyfodol.** | Derbyn |
| **Argymhelliad A3.8**<br>**Bod gwaith yn cael ei wneud ar fyrder i asesu costau'r cynllun er mwyn adnabod beth yw maint y gwariant ac unrhyw arbedion sydd wedi deillio ohono hyd yn hyn ac i ystyried tafluniad dros gyfnod oes y Cyngor yma.** | Ystyried |

Effaith Disgwyliedig

- **Gwella cynllunio a darparu gwasanaethau gan roi'r pwyslais ar y cwsmer tra'n gwireddu arbedion sylweddol yn ystod oes y Cyngor yma.**

A4 Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd (Cynllun Gwella) 2011-12

Mae'r Cyngor yn cyhoeddi Adroddiad yn flynyddol i adrodd ar lwyddiant cynllunio a darparu gwasanaethau. Mae'r Adroddiad yn seiliedig ar Gynllun Strategol y Cyngor ar gyfer 2011-12

Beth wnaeth y Craffwyr

- Ystyried yr Adroddiad drafft a gwneud argymhellion

Argymhellion gan y Craffwyr i'r Cynghorydd Dyfed Edwards, Aelod Cabinet Adnoddau

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad A4.1 – Prif Argymhelliad - Yn y dyfodol mae angen i mewnbwn craffu ddigwydd dau fis yn gynharach. Byddai hyn yn caniatáu i'r aelodau craffu roi sylwadau ysgrifenedig ymlaen llaw er ystyriaeth yr Arweinydd.** | **Ystyried** |
| **Argymhellion a Dderbyniwyd**<br>- **A4.2 – Cynllun Galluogi (T15- Cyf CGOE01) - Angen nodi maint y cynnydd mewn nifer oriau ychwanegol a chanran.**<br>- **A4.3 – Gwasanaeth Yfory (T20) - Nodi maint y Bid**<br>- **A4.4 – Goresgyn rhwystrau i waith – (T32 – SMG07) newid 'adfocatiaeth' i 'eiriolaeth' yn y fersiwn Gymraeg**<br>- **A4.5 - Llunio, datblygu a gweithredu.... (T84 – Add.11) – newid i Ambr**<br>- **A4.6 - Cynllun Siarter Iaith (T84 – PSI05) – newid i Ambr**<br>- **A4.7 - Cynnal digwyddiad proffil uchel (T84 PSI06) - newid i Ambr**<br>- **A4.8 - Buddsoddi mewn cynllun cyfieithu (T85 – PSI09) – newid i Ambr**<br>- **A4.9 - Canran Cyfeiriadau Plant (T38 – Graff 3) – newid 'Nifer' i 'Canran'** | **Derbyn** |
| **Argymhellion a wrthodwyd**<br>- **A4.10 – Dangosyddion Swyddi Gwag (T24) - Defnyddir ffigyrau Mehefin 2011 ar gyfer maes mor dyngedfennol o safbwynt yr Economi ar hyn o bryd lle y gellid cael newid sylweddol ymhen blwyddyn. Dylid cyflwyno ffigyrau Mehefin 2012 (neu mwy diweddar na Mehefin 2011)**<br>- **A4.11 – Cyfradd Plant Gwynedd mewn teuluoedd di-waith (T27) - Angen dangosydd mwy cynhwysfawr i adlewyrchu lefel incwm teulu**<br>- **A4.12 – Trawsnewid i Blant a Phobl Ifanc ((T40 – Add.04) – os mai cyfeirio at blant oed 'uwchradd' yn unig mae'r gwelliant, mae angen nodi hynny**<br>- **A4.13 - % Plant 3-4 oed sy'n gallu siarad Cymraeg (T81) – angen nodi nifer penodol o deuluoedd**<br>- **A4.14 – Gweithredu'r Fframwaith...Cymdogaethau (T86 – PSI10) – newid i Coch**<br>- **A4.15 – Llunio a datblygu Academi...Sgiliau (T86 – PSI13) – Amwys. Nodwch maint y cynnydd.**<br>- **A4.16 – Prosiect datblygol i gynyddu'r defnydd... (T86 – PSI14) – Amwys. Nodwch maint y cynnydd.**<br>- **A4.17 – Nifer Unedau Preswyl (T89) – Nodwch faint o unedau tai sydd wedi'u cymeradwyo yng ngholofn 3.** | **Gwrthod** |

Effaith Disgwyliedig

- **Cyfeirio materion/argymhellion o bryder i'r Blaenraglen Craffu**
- **Sicrhau cywirdeb yr adroddiad i drigolion Gwynedd**

A5 Cydbwysedd Gwledig-Trefol

- Nodwyd y maes yma fel elfen o bryder gan aelodau'r 3 Pwyllgor Craffu yn y Gweithdai Craffu Blynyddol yn haf 2012
- Un o Brosiectau Blaenoriaeth Cynllun Strategol Gwynedd 2013-17 yw Hybu Cymunedau Gwledig Cynaladwy sy'n cyfarch y mater yma.

Beth wnaeth y Craffwyr

- Sefydlwyd Ymchwiliad Craffu i edrych ar
- Beth yw'r enghreifftiau o gynlluniau llwyddiannus i gynyddu cynhwysiad yng Ngwynedd
- Nodi ac ystyried enghreifftiau o srfer da tu allan i'r Sir
- Llunio argymhellion i'r Cyngor weithredu arnynt yn uniongyrchol ac fel partner i hybu gwella cynhwysiad.

Argymhellion gan y Craffwyr

| | |
|---|---|
| | |

Effaith Disgwyliedig

- **Gwella cynhwysedd cymdeithasol**

A6 Partneriaethau a Chydweithio

- Nodwyd pwysigrwydd craffu'r elfen yma o waith cynyddol y Cyngor yn y maes yma

Beth wnaeth y Craffwyr

- Dim gweithgaredd craffu yn ystod y flwyddyn.

Argymhellion gan y Craffwyr

| | |
|---|---|
| **Cynnwys ar Flaenraglen Craffu 2013-14** | |

Effaith Disgwyliedig

A7 Caffael Cynaladwy
- Mae'r Cyngor yn gweithredu Strategaeth Caffael ar draws holl wasanaethau'r Cyngor.
- Mae'n fwriad gan y Cyngor i sicrhau ei fod yn cynyddu nifer y busnesau lleol sy'n cystadlu am waith wrth wireddu'r strategaeth a bod cyfleoedd i greu buddiannau cymdeithasol yn cael eu huchafu

Beth wnaeth y Craffwyr

Ystyriwyd

- Llwyddiant a phroblemau gwireddu'r Strategaeth
- Cafwyd tystiolaeth annibynnol gan arbenigwyr caffael, cwmnïau a gymerodd rhan yn y broses, hyrwyddwyr allanol a Chynlluniau Cymunedol.
- Lluniwyd 11 o argymhellion at sylw'r Aelod Cabinet
- Penderfynwyd cynnal Ymchwiliad Craffu pellach I asesu pa mor llwyddiannus y mae'r strategaeth yn cael ei gweithredu ar draws holl wasanaethau'r Cyngor

Argymhellion gan y Craffwyr i'r Cynghorydd John Wynn Jones, Aelod Cabinet Economi

| | |
|---|---|
| **A7.1 Cyfleu diolch i swyddogion y gwasanaeth caffael ar y cynnydd a wnaed dros y ddwy flynedd ddiwethaf gyda gweithredu'r Polisi Caffael Cynaliadwy.** | |
| **A7.2 Cynnal gwaith ar fyrder i symleiddio'n sylweddol y dogfennau tendro cyfredol. Sicrhau bod y ddogfennaeth yn addas i bwrpas a dim yn cynnwys gwybodaeth ddiangen nac yn gofyn am wybodaeth ddiangen.** | |
| **A7.3 Parhau gyda'r gwaith o addasu'r Supplier Qualification Information Database (SQUID) i gymryd i ystyriaeth y lefelau risg priodol a chymesur o safbwynt trothwyon trosiant ac yswiriant.** | |
| **A7.4 Datblygu trefniadau caffael canolog/corfforaethol ymhellach gan sicrhau adnoddau digonol i gyflawni.** | |
| **A7.5 Sicrhau bod adborth llawn a phriodol yn cael ei ddarparu i gwmnïau aflwyddiannus pe dymunir hynny gan y cwmnïau.** | |
| **A7.6a Sicrhau bod cymal yn cael ei gynnwys yn y tendr a'r cytundeb sy'n nodi bod angen i'r cwmni llwyddiannus dalu is-gontractwyr yn gyflymach**<br>**A7.6b Lobïo Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) i gyflwyno'r elfen yma yn gyffredinol ar draws Cymru.** | |
| **A7.7 Cynnal gwaith manwl i asesu'r niferoedd, sefyllfaoedd a'r rhesymau pam bod cwmnïau sy'n ennill cytundebau yn tueddu rhoi is-gontractau yn hytrach na chyflogi, gan anelu i gynyddu nifer y swyddi sy'n cael eu creu.** | |
| **A7.8 Trafod gyda Llywodraeth Cymru i weld sut y gellir cynyddu ymwybyddiaeth busnesau o'r potensial o dderbyn canran uwch o'r Gwariant Cyhoeddus yng Nghymru** | |
| **A7.9 Hyrwyddo'n sylweddol ac arwain darpar gleientiaid i lenwi'r SQUID yn electronig rhag gorfodi cwmnïau i dreulio amser hir yn wastraffus yn ail-lenwi gwybodaeth ar gyfer tendrau gwahanol.** | |
| **A7.10 Yn dilyn llwyddiant y gwaith o gydweithio i lunio tendrau ar y cyd â phartneriaethau'n lleol ym Mlaenau Ffestiniog, datblygu'r drefn yma gyda phartneriaid lleol pan fo cyfleoedd yn codi.** | |
| **A7.11 Sicrhau bod yr angen i ddarparu gwasanaeth dwyieithog llawn yn un o'r amodau pwysicaf a bod angen rhoi'r pwysedd briodol i hyn yn y polisi caffael ac wrth weithredu'r polisi.** | |
| **Mae disgwyl i'r Ymchwiliad gynnig argymhellion pellach i gyfarfod y Pwyllgor Craffu Corfforaethol ar 5 Medi 2013** | |

Effaith Disgwyliedig

- **Gwella gwasanaethau gan roi'r pwyslais ar y cwsmer tra'n gwireddu arbedion sylweddol yn ystod oes y Cyngor yma.**

Blaenraglen y Pwyllgor Craffu Corfforaethol 2013-14

| A | Corfforaethol |
|---|---|
| A1 | Y Cyngor a'r Cyhoedd –Ymgysylltu |
| A2 | Strategaeth Arbedion + effaith codi treth y Cyngor |
| A3 | Cynllun Gwella? |
| A4 | Partneriaethau a Chydweithio – Asesu Cynnydd |
| A5 | Gwynedd Amdani – prynu trydan, nwy ac ati ar ran Cymunedau i gael gwell pris |
| A6 | Trefniadau'r Pwyllgor Cynllunio |
| A7 | Dangosydd Salwch |
| A8 | Pobl wedi Ymddeol yn dod yn ôl fel Ymgynghorwyr |
| A9 | Gweithlu – Cadw Morál y gweithwyr yn uchel mewn cyfnod anodd |
| A10 | Cydweithio gydag Ynys Môn |
| A11 | Cynllun ôl-troed Carbon |
| A12 | Cynllun Strategol 2013-17 |
| | |

30 Gorffennaf 2013